



## **Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, Atodlen 25B, dyddiad trwyddedu ar gyfer Generadur Penodol Tranche B**

### **Penderfyniad Rheoleiddiol:**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno na fydd fel arfer yn gorfodi'r angen i feddu ar drwydded i weithredu generadur penodol, sy'n cynnwys generadur Tranche B, cyn 1 Ionawr 2019, ar yr amod fod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y generadur penodol yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol a amlinellir yn y ddogfen penderfyniad rheoleiddiol hon.

### **Cefndir**

Cafodd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 eu diwygio ar 29 Ionawr 2018. Mae'r diwygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr generaduron penodol sy'n cynnwys un generadur Tranche B neu fwy yng Nghymru gael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr Awdurdod Cymwys, erbyn y 'dyddiad trwyddedu', sef 1 Ionawr 2019. Mae gweithredu cyfleuster a reoleiddir o'r fath ar ôl y dyddiad hwn heb drwydded yn drosedd.

Mae wedi dod i'r amlwg yn ystod rhai o'n trafodaethau â gweithredwyr ei bod yn bosibl y bydd rhai ohonynt yn ei chael yn anodd cyflwyno eu ceisiadau am drwydded inni mewn pryd er mwyn inni allu gwneud penderfyniad a rhoi trwydded cyn y dyddiad trwyddedu. I roi rhagor o amser i weithredwyr gyflwyno cais ac inni benderfynu ynglŷn â cheisiadau am drwyddedau, rydym wedi penderfynu na fyddwn yn cymryd camau gorfodi os yw'r cais wedi cael ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y dyddiad trwyddedu, ar yr amod nad yw'r cais yn cael ei wrthod neu ei ddychwelyd (gweler yr adran gofynion perthnasol isod).

### **Penderfyniad rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru**

Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru fel arfer yn cymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r drosedd o dan y Rheoliadau o weithredu cyfleuster generadur penodol, gan gynnwys generadur Tranche B, heb drwydded cyn y dyddiad trwyddedu, sef 1 Ionawr 2019, ar yr amod y bodlonir y gofynion a amlinellir isod.

Bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'n Polisi Gorfodi ac Erllyn.

### **Gofynion perthnasol**

1. Rhaid i'r gweithredwr gyflwyno ei gais am drwydded ar gyfer generadur penodol Tranche B erbyn 1 Ionawr 2019.
2. Rhaid i'r gweithredwr ddarparu tystiolaeth i ddangos ei fod yn gallu cydymffurfio â gofynion Atodlen 25B, paragraff 5 o'r Rheoliadau drwy fodloni'r Gwerth Terfyn Allyriadau Safonol ar gyfer ocsidau nitrogen, a lle mae angen mesurau lleihau eilaidd, bod y Gwerth Terfyn Allyriadau Safonol yn cael ei fodloni o fewn yr amserlen a bennir. Byddwn hefyd yn gwirio nad oes unrhyw ddiffyg cydymffurfio ag agweddau ansawdd aer ar y safonau ansawdd amgylcheddol y gellir eu priodoli i'r gwaith o weithredu'r generadur penodol.

Nid fydd ceisiadau a gyflwynir heb y wybodaeth hon wedi cael eu gwneud yn y modd cywir a byddant yn cael eu dychwelyd i'r gweithredwr. O ganlyniad bydd camau gorfodi am weithredu heb drwydded yn cael eu hystyried.

Mae gwybodaeth gyffredinol am y gofynion er mwyn gwneud cais yn y modd cywir yn cael eu hamlinellu yn ein Nodyn Cyfarwyddyd Rheoleiddio Rhif 3 'Deciding applications are duly made and requests for further information': <http://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/environmental-permits/regulatory-guidance-notes-rgns/?lang=cy>

Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018 i'w gweld yma: [http://www.legislation.gov.uk/uksi/2018/110/pdfs/uksi\\_20180110\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2018/110/pdfs/uksi_20180110_en.pdf)

## **Parhad y Penderfyniad Rheoleiddiol hwn**

30 Mehefin 2019